monmouthshire
sir fynwy

**ROLE ADVERT**

| | |
|---|---|
| **ROLE TITLE:** | **CHIEF INFORMATION SECURITY OFFICER** |
| **POST ID:** | **RDIGI 16** |
| **PAY:** | **CHIEF OFFICER BAND D £56,283 -£61,177** |
| **HOURS:** | **37 Per Week** |
| **LOCATION:** | **COUNTY HALL, USK, MONMOUTHSHIRE** |

We are seeking to recruit a key individual to provide cyber resilience, information security assurance and practical support to a partnership of Gwent Police, Monmouthshire CC, Torfaen CBC and Blaenau Gwent CBC. You will act in the role of Chief Information Security Officer for each organisation, reporting to the SIRO.

Our ICT infrastructure is provided by the SRS (Shared Resource Service) and you will work alongside the SRS to assure partners of the integrity of the ICT infrastructure. You will also work with individual partners to maintain their cyber resilience and information security assurance across the four organisations. This role is also key to support Partners future digital direction and strategies.

We are looking for a motivated self-starter who will balance risk against business continuity and provide a variety of security solutions to match our business direction. You will be a confident, dynamic, innovative, knowledgeable and effective Cyber Security architect who can inspire confidence that cyber resilience is being delivered.

This new role will provide you with the opportunity to work in a senior position across all of the partner organisations, driving cyber resilience and best practice as well as enabling accreditation that includes PSN, Cyber security + and PCI compliance, as well as supporting and delivering exciting transformation programmes.

We are not looking for full time attendance at an office, as your work can effectively be managed from any remote location, however, your official 'office base' will be County Hall Usk. You will be hosted within Monmouthshire County Councils Information Security and Technology Team, though you will work equally amongst the partner organisations fitting in with their respective risk appetites and workstyles.

This job is full time 37 hours per week, and you can work flexibly around these hours whilst respecting that the business need comes first.

***Please note that the interviews for this role will be held on Tuesday 31st August at Police Headquarters, Croesyceiliog, Cwmbran***

If you're interested, you are welcome to ask any questions or just have an informal discussion with:

Nigel Stephens (Assistant Chief Officer Resources – Gwent Police) on 01633642398 or Sian Hayward (Head of Information Security and Technology – Monmouthshire County Council) on 01633644309 sianhayward@monmouthshire.gov.uk

**ROLE PROFILE**

**ROLE TITLE:** **CHIEF INFORMATION SECURITY OFFICER**

**POST ID:** **RDIGI 16**

**PAY:** **CHIEF OFFICER BAND D £56,283 -£61,177**

**HOURS:** **37 Per Week**

**LOCATION:** **COUNTY HALL, USK, MONMOUTHSIRE – This post can be carried out in remotely, though you may need to physically visit the partners office bases from time to time from time to time**.

**RESPONSIBLE TO:** **THE SIRO'S FOR EACH PARTNER ORGANISATION**

**WELSH LANGUAGE ASSESSMENT**

Welsh language skills are desirable but not essential.

**WHO WILL YOU WORK WITH?**

You will primarily work with the 4 Partner SIRO's and the SRS Senior Leadership Team. You could also be working with individual officers and Members across the partner organisations too.

**THE JOB…The Purpose of this Role**

This is the first time we will have had an In-House CISO as the service was previously contracted out. There is a current information security and governance framework in place, though you will get to shape it to ensure that all aspects of Information Security and resilience are covered for the partners. The aim is to provide in-house advice and guidance to all our colleagues, at the same time as working with the SRS on the security of the physical infrastructure. We want it in-house because it means the advice is coming from someone who understands what Police and Local Authorities are all about, but it also allows the person giving the advice to cast their eyes across the organisation and go where their professional judgement takes them to improve the efficiency and effectiveness of the partner organisations.

**YOU…Key Responsibilities and Duties**

You must be creative, with a 'can–do' approach and have detailed experience of project delivery. Digitally savvy, you will be able to successfully challenge traditional ideas and ways of thinking, as well as having the proven ability to effectively deliver secure technology solutions and lead incidents and resolutions.

You will recognise that Local Authorities and the Police are effectively running many different businesses, and we need to develop and grow using innovative digital applications and processes. We want you to present us with the very best secure solutions to allow service improvement and support delivery of our services safely, efficiently, and effectively.

You will have a proven track record of translating complex requirements into delivered security designs and have proven delivery of solutions that will effectively enable our business/ICT transformation.

You will support and work within collaborative, multi-disciplinary teams. You will also have proven Cyber implementation and design experience, have provided quality solutions and have transitioned them into 'business as usual'. As an example, the SRS are in the process of procuring a outsourced SIEM managed by a SOC and this role will be instrumental in the implementation and the transition of the service into business as usual to ensure that the we get the very best from our investment.

The ideal candidate will be able to evidence examples of supporting strategies for delivering Cyber Security protection and experience of dealing with compliance Experience is key to the role as we are changing our services to remote workstyles and moving applications and systems to cloud.

**Here's what we can provide you with:**

- The chance to use your skills to benefit the local communities of the partners and experience a rewarding, interesting environment and attractive employment package such as:
- Local Government Pension Scheme, considered to be one of the best employer contribution rates
- A starting holiday entitlement of 23 days per year that increases with time in addition to 10 days' statutory and public holidays
- Option to buy more annual leave
- A full range of family friendly policies including enhanced Maternity, Adoption and Paternity entitlements
- Flexibility – promotes agile working & staff will have the opportunities to meet colleagues across the Partner organisations as well as work from home with options for working your hours in a flexible way
- Training – we need to keep pace with the cyber world so full training will be provided which will also enhance your career

**Person Specification**

How will we know if you are the right person for the role? As the successful candidate you will have demonstrated your knowledge of:

- Current cyber threats and attack vectors and are constantly scanning horizons to keep pace with them
- Network infrastructure Security products and be able to give Partners assurance of the provision within the SRS, our ICT providers.
- The development of safe and secure solutions to underpin the Partners Digital Strategies, including leading projects to affect change.
- Providing advice and guidance for the integration of solutions including Networks, Firewalls and IDS, client/server, endpoint protection, anti-malware, hygiene, and applications.
- Have extensive knowledge across Cyber Security technologies within an Enterprise Architecture and proven track record of delivering multiple cross technology security solutions.
- Have a proven track record providing hands-on technical project delivery across large programmes of work

- Data Protection, GDPR and other legislation relating to information governance
- The business of Local Government and Police Authorities

And your proven experience in the delivery of:

- Client liaison at all levels and in a variety of disciplines
- Assessing the risks and suitability of new business applications
- Developing and updating security polices and practical guidance
- The development and monitoring of risk registers alongside mitigation for all partners.
- Providing workforce guidance and training on cyber resilience and the development of cyber security awareness/culture.
- PSN, PCI, Cyber Essentials and Cyber Essentials+ accreditation
- The recognition that the partners operate businesses where ‘no’ isn’t the answer, but practical options are.

Qualifications:

A proven approach to self-development is key in this fast-moving area. Qualifications in industry qualifications like CISSP and/or CISM are essential.

This post requires a full Police check to be undertaken to NPPV3 and SC level

**Closing Date: Midday 23rd August 2021**

**HYSBYSEB RÔL**

**TEITL Y RÔL:** **PRIF SWYDDOG DIOGELWCH GWYBODAETH**

**RHIF ADNABOD Y RÔL:** **RDIGI 16**

**CYFLOG:** **PRIF SWYDDOG BAND D £56,283 -£61,177**

**ORIAU:** **37 Yr Wythnos**

**LLEOLIAD:** **NEUADD Y SIR, BRYNBUGA, SIR FYNWY**

Rydym yn gobeithio recriwtio unigolyn allweddol i ddarparu seibrgadernid, sicrwydd diogelu gwybodaeth a chymorth ymarferol i bartneriaeth sydd yn cynnwys Heddlu Gwent, Cyngor Sir Fynwy, CBS Torfaen a CBS Blaenau Gwent. Byddwch yn gweithredu fel y Prif Swyddog Diogelwch Gwybodaeth ar gyfer pob un mudiad, ac yn atebol i’r Uwch-berchennog Risg Gwybodaeth (SIRO).

Mae ein seilwaith TGCh yn cael ei ddarparu gan SRS (Shared Resource Service) a byddwch yn gweithio gyda’r SRS er mwyn rhoi sicrwydd i bartneriaid o hygrededd y seilwaith TGCh. Byddwch hefyd yn gweithio gyda phartneriaid unigol er mwyn cynnal eu seibrgadernid tra'n rhoi sicrwydd iddynt ein bod yn diogelu gwybodaeth ar draws y pedwar mudiad. Mae’r rôl hon yn allweddol er mwyn cefnogi cyfeiriad a strategaethau digidol y Partneriaid ar gyfer y dyfodol.

Rydym yn chwilio am berson egnïol sydd yn fodlon bwrw ati ac yn mynd i daro cydbwysedd rhwng risg a pharhad busnes ac yn darparu ystod o ddatrysiadau diogelwch sydd yn gyson gyda'n cyfeiriad busnes. Byddwch yn bensaer Seibrgadernid sydd yn hyderus, deinamig, arloesol gwybodus ac effeithiol ac sydd yn medru ennyn hyder yn y ffaith eich bod yn darparu seibrgadernid.

Bydd y rôl hon yn rhoi'r cyfle i chi weithio mewn rôl bwysig iawn ar draws yr holl fudiadau partner, yn gyrru seibrgadernid ac arferion gorau ynghyd â'n caniatáu achredu sydd yn cynnwys PSN, Seibrgadernid + a chydymffurfiaeth PCI, a chefnogi a'n darparu rhaglenni trawsnewid cyffrous.

Nid oes rhaid i chi fod yn bresennol drwy'r amser mewn swyddfa, gan fod modd rheoli eich gwaith o unrhyw leoliad; ond eich 'lleoliad swyddfa' swyddogol fydd Neuadd y Sir, Brynbuga. Byddwch yn rhan o'r Tîm Technoleg a Diogelwch Gwybodaeth, er y byddwch yn gweithio hefyd gan rannu eich amser yn gydradd rhwng y mudiadau partner, gan barchu eu hawch am risg a'u ffyrdd o weithio.

Mae hon yn swydd llawn amser, 37 awr yr wythnos, ac rydych yn medru gweithio oriau hyblyg tra'n parchu bod anghenion busnes yn flaenoriaeth.

***Noder os gwelwch yn dda y bydd cyfweliadau ar gyfer y rôl hon yn cael eu cynnal ar ddydd Mawrth 31ain Awst ym Mhencadlys yr Heddlu, Croesyceiliog, Cwmbrân***

Os oes diddordeb gennych y rôl, mae croeso i chi ofyn unrhyw gwestiynau neu os ydych am gael sgwrs anffurfiol, cysylltwch gyda:

**Nigel Stephens (Prif Swyddog Adnoddau Cynorthwyol) ar 01633642398 neu**
Sian Hayward (Pennaeth Technoleg a Diogelwch Gwybodaeth) ar 01633644309
sianhayward@monmouthshire.gov.uk

**PROFFIL RÔL**

**TEITL Y RÔL:** **PRIF SWYDDOG DIOGELWCH GWYBODAETH**

**RHIF ADNABOD Y RÔL:** **RDIGI 16**

**CYFLOG:** **PRIF SWYDDOG BAND D £56,283 -£61,177**

**ORIAU:** **37 Yr Wythnos**

**LLEOLIAD:** **NEUADD Y SIR, BRYNBUGA, SIR FYNWY– M\e modd ymgymryd â'r rôl o bell, er y bydd rhaid i chi ymweld gyda swyddfeydd y partneriaid o dro i dro.**

**YN ATEBOL I:** **Y SIRO AR GYFER POB MUDIAD**

**ASESIAD O'R IAITH GYMRAEG**

Mae sgiliau iaith Gymraeg yn ddymunol ond nid yn hanfodol.

**GYDA PHWY Y BYDDWCH YN GWEITHIO?**

Byddwch yn gweithio'n bennaf gyda'r SIRO ar gyfer y 4 Partner a'r Uwch Dîm Arwain SRS. Byddwch hefyd yn gweithio gyda swyddogion unigol ac Aelodau ar draws y mudiadau hefyd.

**Y RÔL…Pwrpas y Rôl hon**

Dyma'r tro cyntaf yr ydym wedi cael Prif Swyddog Diogelwch Gwybodaeth Mewnol, er bod gwasanaeth allanol wedi ei ddarparu ers tro byd ac mae fframwaith cyfredol yno'n barod. Byddwch yn medru llywio'r fframwaith yma. Y nod yw darparu cyngor a chyfarwyddyd mewnol i'n holl gydweithwyr tra'n gweithio ar yr un pryd gyda'r SRS ar ddiogelwch y seilwaith ffisegol. Rydym am gynnig hyn fel gwasanaeth mewnol gan fod hyn yn golygu bod y cyngor yn dod gan rywun sydd yn deall yr Heddlu a'r Awdurdodau Lleol, ond mae hefyd yn caniatáu'r person sydd yn rhoi'r cyngor i fwrw golwg ar draws y mudiad gan ddilyn eu harbenigedd i wneud y mudiadau yn rhai gwell.

**CHI…Cyfrifoldebau a Dyletswyddau Allweddol**

Rhaid i chi fod yn greadigol ac yn fodlon bwrw ati a gwneud pethau a'n meddu ar brofiad manwl o reoli a darparu prosiectau. Yn fedrus yn y maes digidol, byddwch yn medru herio syniadau traddodiadol a ffyrdd o weithio mewn modd llwyddiannus, ac yn meddu ar brofiad o gynnig datrysiadau technolegol diogel ac yn arwain digwyddiadau a chywiriadau.

Byddwch yn cydnabod bod Awdurdodau Lleol a'r Heddlu yn gyfrifol am nifer o fusnesau gwahanol, ac rydym angen i chi ddatblygu a thyfu gan ddefnyddio rhaglenni a phrosesau digidol arloesol. Rydym am i chi gyflwyno'r datrysiadau diogelwch gorau i ni er mwyn gwella ein gwasanaethau a chefnogi'r gwasanaethau yr ydym yn darparu mewn modd diogel, effeithiol ac effeithlon.
Bydd profiad gennych o newid gofynion cymhleth i mewn i ddyluniadau diogelwch y mae modd eu cyflenwi a byddwch yn medru darparu datrysiadau sydd yn hwyluso'r broses o drawsnewid ein busnes/TGCh.

Byddwch yn cefnogi ac yn gweithio gyda thimau cydweithredol, amlddisgyblaethol. Byddwch hefyd yn meddu ar brofiad amlwg o weithredu a dylunio Seibr, gan ddarparu datrysiadau safon uchel ac wedi eu symud fel eu bod yn rhan o'r gyfundrefn o ddydd i ddydd. Er enghraifft, mae'r SRS yn y broses o gaffael SIEM sydd yn cael ei ddarparu gan gwmni allanol ond yn cael ei reoli gan yr SOC a bydd y rôl hon yn hanfodol wrth i ni weithredu hyn a thrawsnewid y gwasanaeth i fel ei fod yn rhan o'n gyfundrefn o ddydd i ddydd a'n bod yn sicrhau'r gorau glas o'n buddsoddiad.

Bydd yr ymgeisydd delfrydol yn medru cynnig tystiolaeth o esiamplau o strategaethau cefnogol ar gyfer Seibrgadernid a phrofiad o ddelio gyda chydymffurfiaeth. Mae profiad yn allweddol i'r rôl gan ein bod yn newid ein gwasanaethau i ffyrdd o weithio o bell a symud ein rhaglenni a'n systemau i'r cwmwl.

**Dyma'r hyn y mae modd i ni ddarparu i chi**

Y cyfle i ddefnyddio eich sgiliau er mwyn elwa'r gymuned leol a phrofi amgylchedd gwaith gwerth chweil a diddorol a phecyn cyflogaeth deniadol fel:

Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol, sy'n cael ei ystyried fel un o'r pensiynau gorau o ran cyfraniad y cyflogwr.

Lwfans gwyliau cychwynnol o 23 diwrnod y flwyddyn, a hynny ar ben y 10 diwrnod ychwanegol o wyliau statudol a chyhoeddus

Yr opsiwn i brynu mwy o wyliau

Ystod lawn o bolisïau sy'n ystyriol o deuluoedd gan gynnwys hawliau Mamolaeth, Mabwysiadu a Thadolaeth gwell na'r arfer

Hyblygrwydd – rydym yn hyrwyddo gweithio hyblyg a bydd staff yn cael cyfle i gwrdd â chydweithwyr ar draws y mudiadau Partner yn ogystal â gweithio o gartref a byddwch yn medru gweithio eich oriau mewn modd hyblyg.

Hyfforddiant – mae angen i ni ddysgu am y datblygiadau diweddaraf o fewn y byd seibr, a byddwn yn darparu hyfforddiant fel sydd angen.

**Manyleb Person**

Sut fyddwn yn gwybod os mai chi yw'r person cywir ar gyfer y rôl hon? Fel yr ymgeisydd llwyddiannus, byddwch wedi arddangos …..

……Eich gwybodaeth o:

- Bygythiadau seibr cyfredol a'r fectorau ymosodiad ac yn edrych dros y gorwel er mwyn adnabod bygythiadau
- Cynnyrch Diogelwch Seilwaith Rhwydwaith ac yn medru rhoi sicrwydd i Bartneriaid o'r ddarpariaeth o fewn SRS, ein darparwyr TGCh.
- Datblygu datrysiadau diogel er mwyn tanategu Strategaethau Digidol y Partneriaid, gan gynnwys arwain prosiectau er mwyn creu newid.
- Yn darparu cyngor a chyfarwyddyd ar gyfer integreiddio datrysiadau gan gynnwys Rhwydweithiau, Waliau Tân ac IDS, cleient/gweinydd, diogelu'r pwynt ar y diwedd, meddalwedd wrthfaleiswedd, hylendid a rhaglenni.
- Yn meddu ar ddealltwriaeth helaeth ar draws technoleg Seibrgadernid o fewn Saernïaeth 'Enterprise' ac yn medru darparu datrysiadau diogelwch technolegol gwahanol ar yr un pryd.
- Yn meddu ar brofiad o ddarparu a gweithredu prosiectau'n ymarferol ar draws rhaglenni mawr o waith
- Diogelu Data, GDPR a deddfwriaeth arall sydd yn ymwneud gyda llywodraethu gwybodaeth
- Busnes Llywodraeth Leol ac Awdurdodau Heddlu

A byddwch yn medru profi eich bod yn dangos y canlynol:

- Gweithio gyda chleientiaid ar bob lefel ac mewn amryw o ddisgyblaethau
- Asesu risgiau ac addasrwydd y rhaglenni busnes newydd
- Datblygu a diweddaru polisïau a chanllawiau diogelwch ymarferol
- Datblygu a monitro cofrestrau risg a'n lliniaru risgiau ar ran yr holl bartneriaid
- Yn darparu canllaw a hyfforddiant i'r gweithlu ar seibrgadernid ac ymwybyddiaeth/ diwylliant o seibrgadernid.
- Wedi eich achredu o ran PSN, PCI, Cyber Essentials a Cyber Essentials+
- Y gydnabyddiaeth bod partneriaid yn gweithredu busnesau lle mai nad 'na' yw'r ateb ond yn hytrach, yr ateb yw 'opsiynau ymarferol'.

Cymwysterau:

Profiad a hanes o ddatblygu eich hun yn y maes hwn sydd yn datblygu'n gyflym. Mae meddu ar gymwysterau diwydiant fel CISSP a/neu CISM yn hanfodol.

Bydd angen gwiriad llawn gan yr Heddlu, a hynny hyd at lefel NPPV3 a SC.

**Dyddiad Cau: 12pm ar 23ain Awst 2021**